# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Clifton Dental Care Ltd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 23 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ionawr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-216-1



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom........................................................................................... 8

   Ansawdd profiad y claf ...................................................................................9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ...................................................................13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth............................................................20

4. Beth nesaf?.................................................................................................. 23

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.................................................... 24

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ...........25

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ............................................................26

   Atodiad C – Cynllun gwella.............................................................................27

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd o Clifton Dental Care Ltd yn 112 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 1DG yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 23 Hydref 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld mwy o fanylion ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Clifton Dental Ltd yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer ei gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo'r polisïau a'r gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Yn ogystal â'r taflenni gwybodaeth sy'n hyrwyddo iechyd y geg, roedd dwy nyrs ddeintyddol wedi creu arddangosfa weledol a thrawiadol yn tynnu sylw at effeithiau siwgr, alcohol a smygu ar ddannedd.

Cynhaliwyd cofnodion clinigol i safon uchel, yn ogystal â ffeiliau staff a gwybodaeth am y practis.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelwyd tystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth gref gan reolwr y practis a pherchennog y practis
- Roedd y cleifion yn cael eu trin â pharch ac roeddent yn derbyn safon dda o ofal deintyddol
- Roedd y practis yn annog adborth gan gleifion
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Ymddengys bod tîm y staff yn hapus iawn yn eu rolau, eu bod yn gymwys wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Sicrhau bod yr holl gyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel

- Sicrhau bod gan yr holl staff clinigol y dogfennau sy'n cadarnhau bod ganddynt yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B.
- Dylai ystyriaeth gael ei rhoi i brynu'r dadheintydd golchi/bath uwchsonig fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05
- Dylai'r practis gysylltu mesuryddion lefelau ymbelydredd i bob peiriant ymbelydredd a chofnodi'r holl radiograffau a dynnir. .

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Clifton Dental Care Ltd yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys saith deintydd, yr oedd un ohonynt yn locwm, dau hylenydd, saith nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un derbynnydd a rheolwr y practis.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Mae'r practis wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Mae'r practis yn ceisio adborth gan gleifion drwy gynnal arolygon a gwahodd cleifion i ddarparu awgrymiadau yn y blwch a ddarperir yn y dderbynfa.

Gwelsom staff yn bod yn broffesiynol ac yn gwrtais i gleifion.

Nododd y cleifion hynny a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Un o'r deintyddion gorau rwyf erioed wedi'i gael yn wir"*
>
> *"Daliwch ati i wneud yr hyn rydych chi'n ei wneud"*
>
> *"Eglurwch os oes yn rhaid i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd dalu am ofal deintyddol"*
>
> *"Newid dim"*

### Cadw'n iach

Roedd gan y practis dair ardal aros, un ar y llawr daear a dwy ar y llawr cyntaf a gwelsom ddetholiad o daflenni gwybodaeth yn hyrwyddo iechyd y geg ym mhob ardal.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a oedd wedi cwblhau holiadur Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fod y tîm deintyddol wedi siarad â hwy am sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn iach.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' wrth y fynedfa ac yn yr ardaloedd aros ynghyd â chardiau llinell gymorth yn cadarnhau bod pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth eiddo di-fwg.

Yn y dderbynfa, roedd tair arddangosfa weledol a thrawiadol a oedd wedi cael eu creu gan ddwy o'r nyrsys deintyddol, yn tynnu sylw at effeithiau smygu, effeithiau gormod o siwgr yn eich diet ac effeithiau alcohol.

## Gofal ag urddas

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Ar y llawr daear, roedd gan y practis dderbynfa ac ardal aros agored. Dywedodd staff wrthym petai angen cynnal sgwrs breifat â'r claf y gallent ddefnyddio ystafell driniaeth wag i fwrdd o'r dderbynfa a'r ardal aros neu ddefnyddio swyddfa rheolwr y practis/yr ystafell staff ar y llawr uchaf. Gallai galwadau ffôn hefyd gael eu gwneud o swyddfa/ystafell staff rheolwr y practis sy'n rhoi preifatrwydd i'r claf.

Canfuom fod gwybodaeth ysgrifenedig ac electronig am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau y diogelir gwybodaeth bersonol a sensitif.

Roedd gan yr holl ystafelloedd triniaeth ddeintyddol ddrysau y gellid eu cau pan fo claf yn derbyn triniaeth, gan sicrhau preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch ei ofal deintyddol, i'r graddau yr oedd yn dymuno.  Dywedodd pob un claf ond un hefyd eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth.

Dywedodd 18 o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn derbyn unrhyw driniaeth ond dim ond naw claf a ddywedodd wrthym eu bod yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Roedd rhestrau prisiau yn arddangos costau triniaeth y GIG mewn tair ystafell aros, ond dim ond yn ardal aros y llawr daear y cafwyd rhestr brisiau yn dangos costau triniaeth ddeintyddol breifat.  Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn a ddatrysodd y broblem ar unwaith gan roi gwybodaeth ychwanegol yn yr ardaloedd aros ar y llawr cyntaf.

Gwelsom fod manylion y deintyddion yn y practis ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn allanol.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi llwyddo i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob tro.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi fod y staff yn y dderbynfa a'r staff nyrsio'n gwrtais wrth siarad â chleifion yn bersonol a thros y ffôn.

## Gofal amserol

Dywedodd 13 o'r 20 o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Roedd manylion am sut gallai cleifion gael mynediad i ofal deintyddol brys pan fo’r practis ar gau yn cael eu harddangos y tu mewn a'r tu allan i'r practis. Roedd y manylion hyn hefyd ar gael ar neges peiriant ateb y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd 19 o'r 20 o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Dywedodd un claf mewn ymateb i'r cwestiwn nad oedd yn gwybod a oedd y deintydd yn holi am ei hanes meddygol.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi Cyfle Cyfartal ar waith ynghyd â pholisïau preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd. Roedd ramp yn arwain at y brif fynedfa a'r ardal aros ac roedd dwy o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear a oedd yn golygu bod y practis yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd hanner o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion a chod ymarfer ynghylch triniaeth y GIG a thriniaeth breifat. Roedd y rhain yn cael eu harddangos yn ddwyieithog yn y dderbynfa. O ran cwynion ynghylch triniaeth y GIG, nid oedd unrhyw gyfeiriad

at broses gwyno'r GIG, sef Gweithio i Wella[1], yn y polisi ac nid oedd unrhyw bosteri na thaflenni Gweithio i Wella yn y practis. Rydym yn argymell y dylai'r practis ddiwygio'i bolisi i gynnwys cyfeiriad at y broses Gweithio i Wella ac arddangos posteri a thaflenni priodol yn ei ardaloedd aros. Gwnaethom hefyd gynghori y gallai'r practis sicrhau bod polisi cwynion y GIG a'r polisi sy'n ymwneud â thriniaeth ddeintyddol breifat yn bolisïau ar wahân er hawster dealltwriaeth i gleifion.

Roedd gan y practis broses ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a phryderon a dderbynnir ganddynt. Gwnaethom nodi bod ei ffeil yn cynnwys cofnodion cynhwysfawr o gwynion, sut yr aethpwyd i'r afael â hwy a'r ymatebion terfynol. Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am fonitro'r holl bryderon a'r cwynion a dderbynnir. Gwnaethom hefyd nodi y trafodir y themâu cyffredin a'r cwynion diweddaraf ym mhob cyfarfod staff. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gofnodi sylwadau ac adborth llafar er mwyn nodi themâu a thueddiadau yn unol â'r canllawiau yn Gweithio i Wella.

Mae'r practis yn cynnal arolygon cleifion ddwywaith y flwyddyn a gwnaethom nodi bod blwch awgrymiadau yn y dderbynfa. Gwnaeth ychydig o dan dri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau y gofynnir iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i ddiwygio'i bolisi cwynion i gynnwys cyfeiriad at y broses "Gweithio i Wella" ac arddangos posteri a thaflenni Gweithio i Wella yn eu hardaloedd aros.

[1]"Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd cofnodion meddygol yn cael eu cynnal i safon uchel. Gwnaethom hefyd nodi bod y cyfleusterau clinigol yn llawn offer, yn lân ac yn daclus.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ac roedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod ei becyn cymorth cyntaf, ei gyffuriau brys a'i ddiffibriliwr yn cael eu storio gyda'i gilydd er hawster mynediad os ceir argyfwng meddygol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Gwelwyd bod yr adeilad yn cael ei gynnal yn dda, a gwnaed rhywfaint o waith adnewyddu arno  yn ddiweddar. Roedd peth ôl traul ar ddeunydd llawr y llawr daear rhwng y dderbynfa a'r ystafell driniaeth gefn. Dywedodd rheolwr y practis ei fod yn ymwybodol o hyn a bod trefniadau'n cael eu gwneud i'w drwsio. Roedd y prosesydd digidol ar gyfer lluniau pelydr-X mewn cwpwrdd, mewn cilfach rhwng y dderbynfa a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd arwydd yn rhybuddio bod perygl (Perygl - Dim Mynediad) ar ddrws y cwpwrdd ond nid oedd y cwpwrdd wedi'i gloi. Argymhellwn fod y drws hwn yn cael ei gadw ar glo er mwyn sicrhau na all cleifion gael mynediad iddo.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis a gwnaethom sylwi bod holl ardaloedd y practis yn lân a thaclus.

Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad a gwnaethom nodi eu bod wedi derbyn gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy. Roedd rhaid mynd trwy ystafell driniaeth y prif ddeintydd i gyrraedd yr allanfa dân gefn a oedd yn arwain allan i faes parcio'r practis. Yn uniongyrchol y tu allan i'r allanfa roedd grisiau sy'n golygu nad yw'n addas i gadeiriau olwyn. Rydym yn awgrymu y dylai'r practis ystyried gosod ramp i alluogi defnyddwyr cadeiriau olwyn, yn achos argyfwng, i symud o'r adeilad a chael mynediad i'r maes parcio.

Fe'n hysbyswyd bod y prif ddeintydd wedi ymgymryd â phrawf cyfarpar symudol (PAT) ar gyfer y practis. Yn ôl arweiniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, mewn llawer o amgylcheddau risg isel, gall person cymwys ymgymryd â phrawf PAT, ac, os oes ganddo ddigon o wybodaeth a hyfforddiant, gallai hwn fod yn aelod synhwyrol o staff yn ymgymryd ag archwiliadau gweledol. Ond, wrth ymgymryd ag archwiliad a phrawf ar y cyd, a lle mae cleifion a staff yn dod i gyswllt â'r cyfarpar trydanol, rhaid iddynt gael eu profi gan berson cymwys. Byddem yn argymell i'r practis gysylltu â pherson cymwys i ymgymryd â phrawf PAT manwl i sicrhau defnydd diogel o gyfarpar trydanol bach yn y practis.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol), gwastraff amalgam a gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) yn ddiogel. Rydym yn argymell y dylai blychau offer miniog gael eu lleoli mor agos at y clinigydd â phosib ac ar y wal yn ddelfrydol ym mhob ystafell driniaeth.

Roedd gan y practis lyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom nodi bod y poster iechyd a diogelwch yn yr ystafell staff.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rydym yn argymell bod y practis, yn unol ag arweiniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a diogelwch, yn cyflogi person cymwys i ymgymryd â phrawf PAT manwl i sicrhau'r defnydd diogel o gyfarpar trydanol bach yn y practis.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol a phriodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[2]. Gwelsom fod y staff yn glanhau offer (cyn dadheintio) â llaw. Mae glanhau ac archwilio'n rhannau allweddol o'r broses dadheintio offer a byddem yn argymell i'r practis brynu bath uwchsonig a'i ddefnyddio gyda phrofion ffoil alwminiwm a phrofion protein neu ddadheintydd golchi fel yr argymhellir gan WHTM 01-05.

Gwelsom y llyfrau cofnodion ar gyfer cofnodi bod offer sterileiddio yn cael eu cynnal a'u cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gan y staff clinigol dystysgrifau yn eu ffeiliau i gadarnhau bod eu hyfforddiant rheoli heintiau'n gyfredol.

Roedd y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau WHTM 01-05.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rydym yn argymell y dylai'r practis ystyried prynu bath uwchsonig neu ddadheintydd golchi ar gyfer y broses o lanhau offer cyn sterileiddio fel yr argymhellir gan WHTM 01-05.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion. Ac eithrio un nyrs ddeintyddol, roed yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y flwyddyn ddiwethaf ar sut i fynd i'r afael ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd. Gwnaethom ddweud wrth reolwr y practis am ein canfyddiadau a gwnaed trefniadau yn ystod yr arolygiad i'r nyrs fynd ar hyfforddiant priodol cyn diwedd y flwyddyn. Roedd gan y practis dri swyddog cymorth cyntaf a enwyd ac a benodwyd.

---

[2]Mae dogfen (Diwygiad 1) Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gan y practis y cyffuriau a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (y DU)[3]. Roedd y rhain a'r diffibriliwr yn cael eu storio ar loriau gwahanol y practis ac argymhellir, er hawster mynediad mewn argyfwng meddygol, eu bod yn cael eu storio gyda'i gilydd mewn un lle. Gwnaethom nodi fod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys o fewn eu dyddiad ac yn barod i'w defnyddio.

Gwnaethom nodi bod y practis yn storio'i gyffuriau mewn cabinet heb glo y gallai cleifion gael mynediad iddynt. Argymhellwn fod yr holl gyffuriau'n cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo a/neu mewn ystafell wedi'i chloi. Gwnaethom nodi fod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gyffuriau'n cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo a/neu mewn ystafell wedi'i chloi.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed a'u bod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant wneud hyn yn y practis. Gwelsom dystysgrifau gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl ddeintyddion.

[3] Mae'r Cyngor Dadebru (y DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r timau deintyddol.

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth a'r offer radiolegol yn lân iawn ac mewn cyflwr da a bod ardaloedd a reolir wedi'u nodi.

Diben sicrhau ansawdd yw sicrhau gwybodaeth ddiagnostig ddigonol yn gyson, gan reoli lefelau ymbelydredd i fod mor isel ag sy'n ymarferol bosib. Gwnaethom nodi bod y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod y practis yn cadw llyfr cofnodion sy'n cofnodi'r dyddiad, y gweithredwr, y math o ffilm, nifer y ffilmiau, dynodwyr cleifion ac ansawdd y ddelwedd.

Nod Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000[4] yw lleihau datguddiad cleifion yn ystod gweithdrefnau meddygol. Rydym yn argymell bod mesuryddion lefelau ymbelydredd yn cael eu cysylltu i ddarnau llaw pob peiriant pelydr-X i alluogi staff i sicrhau nad eir y tu hwnt i lefelau ymbelydredd diogel.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[5] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd yr holl ddeintyddion a'r hylenwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i gysylltu mesuryddion lefelau ymbelydredd i ddarnau llaw pob peiriant pelydr-X er mwyn i'r staff sicrhau nad ydynt yn mynd y tu hwnt i lefelau ymbelydredd diogel.

Argymhellir bod y practis yn cadw llyfr cofnodion o'r holl radiograffau a dynnir, gan gofnodi'r dyddiad, y gweithredwr, y math o ffilm, nifer y ffilmiau, dynodwyr

[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

[5] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

cleifion ac ansawdd y ddelwedd.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn ymgymryd ag archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, cadw cofnodion clinigol, gwaredu gwastraff, hylendid dwylo, delweddau radiograffeg ac archwiliad arfer da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nodwyd gennym fod y deintyddion yn cwrdd yn anffurfiol a dywedwyd wrthym mai'r bwriad oedd ffurfioli'r cyfarfodydd hyn at ddibenion adolygiadau cymheiriaid. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi cyflwyno cais am offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth [6]. Offeryn datblygu ymarfer tîm deintyddol yw'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth i alluogi'r tîm i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu data ar waith. Roedd y dull storio ffeiliau'n briodol i sicrhau diogelwch data personol. Gwnaed copïau wrth gefn o’r holl ffeiliau electronig yn rheolaidd ac roedd gwybodaeth am gleifion nad oedd ar ffurf electronig yn cael ei storio mewn ystafell wedi'i chloi.

### Cadw cofnodion

---

[6] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion o safon uchel iawn a oedd yn dangos bod gofal da iawn wedi'i ddarparu i gleifion. Ni nodwyd unrhyw welliannau yn y maes hwn ac felly mae ansawdd cadw cofnodion clinigol i'w ganmol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd y staff, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Gwelsom fod amrywiaeth cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Roedd yr holl staff wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae angen i'r practis sicrhau bod ei gofnodion staff ynghylch imiwnedd rhag Hepatitis B yn gyfredol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Clifton Dental Care Ltd ac mae'n gweithio yno ar sail amser llawn. Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth gref ac roedd y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr practis effeithlon. Gwelsom berthynas dda iawn rhwng staff y practis.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, a gwelwyd gwaith cadw cofnodion da yn y rhan fwyaf o feysydd. Gwelsom fod amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod gan bob polisi ddyddiad adolygu. Cynghorir bod y staff i gyd yn llofnodi pob polisi er mwyn dangos eu bod wedi'i ddarllen ac i ddangos tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol. Roedd yr holl ddeintyddion yn darparu rhai gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom fod

eu tystysgrifau cofrestru'n cael eu harddangos yn glir yn ôl gofyniad Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir bod cofnodion yn cael eu cadw i ddangos a yw'r holl bolisïau wedi cael eu darllen gan bob aelod o staff.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac roedd hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod un aelod o staff clinigol nad oedd wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar adfywio cardio-pwlmonaidd. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn a gytunodd i sicrhau bod yr aelod hwn o staff yn mynd ar gwrs cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd a chaiff cofnodion manwl eu llunio a lofnodir gan yr holl staff.

Dywedodd staff eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a'u bod yn hapus yn ymgymryd â'u rolau. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen ymsefydlu a bod y staff yn derbyn arfarniadau blynyddol o'u perfformiad.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag Hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau.[7] Ni allai'r practis ddarparu tystiolaeth o imiwnedd o ran y cofnodion imiwneiddio ar gyfer tri aelod o'r staff clinigol, dim ond nodi eu bod wedi cael y brechiad. Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn gofyn i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru gael tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd

---

[7] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar yr holl ddeintyddion ond nid y nyrsys deintyddol na staff y dderbynfa. Byddem yn cynghori cynnal gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar yr holl staff clinigol, gan gynnwys nyrsys deintyddol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B.

# 4. Beth nesaf?

Lle’r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Gwelsom fod rhestri prisiau a oedd yn nodi costau triniaethau deintyddol preifat wedi'u harddangos yn y man aros ar y llawr daear ond nid yn y rhai hynny ar y llawr cyntaf | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod rhestri prisiau'n cael eu harddangos, gan gynnwys rhestr o eitemau sylfaenol a darparu gwybodaeth glir am brisiau.<br>Ni ddylai cleifion orfod gofyn am y wybodaeth hon | Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn | Gwnaeth rheolwr y practis ddatrys y broblem hon ar unwaith gan arddangos gwybodaeth ychwanegol yn y mannau aros ar y llawr cyntaf. |
| Gwelsom fod un nyrs heb gael hyfforddiant diweddar ar sut i fynd i'r afael ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd . | Mae'n bwysig fod staff yn cael eu hyfforddi i ymdrin ag argyfyngau meddygol cleifion, gan gynnwys dadebru, a bod ganddynt dystiolaeth gyfredol o'u gallu. | Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis am ein canfyddiadau | Gwnaeth rheolwr y practis gofrestru'r nyrs ddeintyddol ar gwrs hyfforddi priodol ym mis Rhagfyr 2017. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Clifton Dental Care Ltd

## Dyddiad yr arolygiad: Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Clifton Dental Care Ltd

## Dyddiad yr arolygiad: 23 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Y practis i ddiwygio'i bolisi cwynion i gynnwys cyfeiriad at "Gweithio i Wella", ac arddangos posteri a thaflenni "Gweithio i Wella" yn yr ardaloedd aros. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Bydd y practis yn diwygio'i bolisi cwynion yn ôl y gofyn ac yn arddangos posteri a thaflenni yn yr ardaloedd aros. | Rheolwr y practis | Ionawr 2018 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rydym yn argymell bod y practis, yn unol ag arweiniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn cyflogi person cymwys i ymgymryd â phrawf PAT manwl i sicrhau'r defnydd diogel o gyfarpar trydanol bach yn y | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Mae'r practis wedi caffael gwasanaethau trydanwr cymwys a fydd yn ymgymryd â phrofion yn y flwyddyn newydd | Rheolwr y practis | Chwefror 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| practis. | | | | |
| Rydym yn argymell, ar gyfer glanhau cyfarpar cyn sterileiddio, bod y practis yn ystyried prynu bath uwchsonig neu ddadheintydd golchi fel yr argymhellir gan WHTM 01-05. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Ar hyn o bryd, mae'r prif ddeintydd mewn trafodaethau â Henry Schein (cyflenwr cyfarpar deintyddol) mewn perthynas â phrynu bath uwchsonig. | Prif ddeintydd | Ar ddigwydd |
| Y practis i sicrhau bod yr holl gyffuriau'n cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet dan glo a/neu mewn ystafell wedi'i chloi. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Ar ddiwrnod yr arolygiad ac wedi hynny, mae'r practis wedi sicrhau bod yr holl gyffuriau brys yn cael eu storio mewn cabinet dan glo. | Prif ddeintydd | Gweithredwyd |
| Y practis i gysylltu mesuryddion lefelau ymbelydredd i ddarnau llaw pob peiriant pelydr-X er mwyn i staff sicrhau nad eir y tu hwnt i lefelau ymbelydredd diogel. | 2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Ar hyn o bryd, mae'r practis mewn trafodaethau ag Ysbyty Felindre mewn perthynas â phrynu mesuryddion lefelau ymbelydredd. | Prif ddeintydd | Ar ddigwydd |
| Argymhellir bod y practis yn cadw llyfr cofnodion o'r holl radiograffau a dynnir, gan gofnodi'r dyddiad, y gweithredwr, y math o ffilm, nifer y ffilmiau, y dynodwyr cleifion ac ansawdd y ddelwedd. | | O ddiwrnod yr arolygiad, mae'r practis yn defnyddio llyfr cofnodion sy'n darparu cofnod â llaw o'r math o radiograffau a dynnir, y dyddiad tynnu, y gweithredwr, y math o ffilm a nifer y ffilmiau a'r dynodwyr cleifion. Caiff ansawdd y delweddau ei asesu gan y deintydd a'i gofnodi ar ffeil electronig y cleifion. | Prif ddeintydd | Gweithredwyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Argymhellir bod cofnodion yn cael eu cadw i ddangos a yw'r holl bolisïau wedi cael eu darllen gan bob aelod o staff. | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Mae protocolau ar waith i sicrhau bod yr holl aelodau staff newydd yn derbyn hyfforddiant ac yn deall polisïau penodol y practis sydd ar waith ar adeg eu cyflogi. Rhoddir polisïau a gyflwynir ar ôl dechrau yn y swydd i'r staff mewn cyfarfod staff. Bydd rheolwr y practis yn llunio cofnod ysgrifenedig canolog penodol sy'n ddogfen barhaus i ddangos bod yr holl aelodau staff wedi darllen holl bolisïau'r practis. | Rheolwr y practis | Ionawr 2018 |
| Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B. | 7.1 Gweithlu | Mae'r practis wedi gofyn am yr wybodaeth hon gan feddygon teulu'r aelodau staff perthnasol. | Rheolwr y practis | Ionawr 2018 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):** **Dr. Christopher Robert Pryde**

**Swydd:** **Prif Glinigydd a Chlinigydd Arweiniol**

**Dyddiad:** **21 Rhagfyr 2017**